


Adroddiad Blynyddol

2011-12



Confensiynau a byrfoddau

Blwyddyn Ariannol (1 Ebrill - 31 Mawrth) 2011-12

Blwyddyn Academaidd (1 Awst - 31 Gorffennaf) 2011/12

AU – addysg uwch

AB – addysg bellach

SAUau – sefydliadau addysg uwch

SABau – colegau addysg bellach

CALI – cyfwerth ag amser-llawn

I gael copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn, neu gopi mewn fformat gwahanol, e-bostiwch info@hefcw.ac.uk neu llwythwch gopïau i lawr o www.hefcw.ac.uk.

© *Hawlfraint CCAUC 2012*

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) biau hawlfraint y cyhoeddiad hwn. Gall y deunydd gael ei gopïo neu ei atgynhyrchu ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell ac na ddefnyddir y deunydd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, at elw masnachol. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig CCAUC ymlaen llaw os bwriedir defnyddio'r deunydd.

Cynnwys

Ynglŷn â CCAUC	04
Ein fframwaith strategol	05
Cynnydd yn erbyn mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol	06
Datganiad y Cadeirydd	09
Datganiad y Prif Weithredwr	11
Cyllido addysg uwch.....	12
Data am fyfyrwyr	16
Ehangu mynediad	19
Profiad y myfyriwr	21
Sgiliau.....	24
Trosglwyddo gwybodaeth	26
Ymchwil.....	27
Ailgyflunio a chydweithio.....	28
Llywodraethu	30
CCAUC fel sefydliad.....	32
Aelodau pwyllgorau ac aelodau'r Cyngor	35
Cyfrifon cryno ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012	38

Ynglŷn â CCAUC

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Mae CCAUC yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i addysg uwch. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys:

- Grant ffioedd dysgu i israddedigion amser-llawn sy'n byw yng Nghymru
- Cyllid addysgu, cyllid ymchwil a chyllid arall i brifysgolion Cymru
- Cyrsiau AU mewn colegau addysg bellach.

Drwy'r system gyllido hon, mae CCAUC yn cefnogi'r system AU yng Nghymru er mwyn cyflenwi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae CCAUC hefyd yn achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon ar gyfer athrawon ysgol.

Sefydlwyd CCAUC o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'r cyfrifoldebau am hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA), gan gynnwys achredu darparwyr HCA, yn cael eu cwmpasu o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 a Deddf Addysg 2005.

Ein Gweledigaeth

Rydym yn dymuno datblygu a chynnal addysg uwch o **safon** **ryngwladol** yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru a **thu hwnt**.

Ein Cenhadaeth


Defnyddiwn adnoddau a dderbyniwn gan Lywodraeth Cymru ac eraill mewn ffordd strategol i:

- sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf
- cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru
- sicrhau hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru.

Er mwyn

- cynyddu cyfiawnder cymdeithasol
- cefnogi economi fywiog.

Ein fframwaith strategol



Cynnydd yn erbyn mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol

Mesur strategol	Gwaelodlin	Cynnydd	Cynnydd
1 Cynnydd o 10% yng nghyfran y myfyrwyr sy'n dod o Gymru ac sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n byw yn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Cymru, o 15.6% yn 2008/09 i 17.2% yn 2012/13.	2008/09	2009/10	2010/11
	15.6%	16.2%	16.5%
2 Cynnydd o 2.7% yn y gyfradd cwblhau modiwlau ar gyfer cofrestriadau israddedig yn sefydliadau addysg uwch Cymru, o 87.6% yn 2008/09 i 90% yn 2012/13.	2008/09	2009/10	2010/11
	87.6%	90.1%	92.5%
3 Bydd y sgôr gyfartalog dreigl dair blynedd ar gyfer Cymru yng nghwestiwn 'bodlonrwydd cyffredinol'* yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr yn hafal i, neu'n fwy na'r sgôr gymharol ar gyfer y DU. <i>*Ystyr 'sgôr' yw canran y myfyrwyr a gytunodd â 'Yn gyffredinol, rwy'n fodlon ar safon fy nghwrs'.</i>	2007 i 2009 Sgôr gyfartalog dreigl 3 blynedd	2009 i 2011 Sgôr gyfartalog dreigl 3 blynedd	2010 i 2012 Sgôr gyfartalog dreigl 3 blynedd
	Sefydliadau AU Cymru 83.3%	Sefydliadau AU Cymru 82.7%	83%
	Sefydliadau AU y DU 81.7%	Sefydliadau AU y DU 82.7%	83.7%
4 Bydd nifer y myfyrwyr o Gymru mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn codi o 4,586 yn 2008/09 i 5,509 yn 2012/13.* <i>*Mae'r waelodlin a'r targed wedi cael eu diwygio i adlewyrchu cywiriad data 2008/09.</i>	2008/09	2009/10	2010/11
	4,586	4,612	4,690
5 Bydd y newid canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch Cymru yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymaradwy ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr).	2007/08 i 2008/09 twf %	2008/09 i 2009/10 twf %	2009/10 i 2010/11 twf %
	Sefydliadau AU Cymru 15.1%	Sefydliadau AU Cymru 26.7%	Sefydliadau AU Cymru 16.4%
	Sefydliadau AU y DU (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr) 10.4%	Sefydliadau AU y DU (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr) 11.9%	Sefydliadau AU y DU (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr) 8.5%

Mesur strategol	Gwaelodlin	Cynnydd	Cynnydd
6 Bydd y gyfran o raddedigion sy'n gadael addysg uwch gyda graddau cyntaf o gyrsiau amser-llawn ac sydd mewn gwaith, yn astudio, neu'r ddau chwe mis ar ôl gadael, yn hafal i, neu'n fwy na'r gyfran ar gyfer y DU erbyn 2012/13.	2008/09 % a gyflogwyd / sy'n astudio ar ôl 6 mis	2009/10 % a gyflogwyd / sy'n astudio ar ôl 6 mis	2010/11 % a gyflogwyd / sy'n astudio ar ôl 6 mis
	Sefydliadau AU Cymru 91.2%	Sefydliadau AU Cymru 91.9%	Sefydliadau AU Cymru 91.0%
	Sefydliadau AU y DU 89.9%	Sefydliadau AU y DU 90.4%	Sefydliadau AU y DU 90.3%
7 Bydd cyfradd cyfranogiad absoliwt o fewn darparwyr addysg uwch Cymru o fyfyrwyr ym mhwm awdurdod unedol Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd yn cynyddu 8% i'r cyfartaledd cenedlaethol presennol erbyn 2012/13 (o 2.5% i 2.7%).	2007/08	2008/09	2009/10
	2.5%	2.5%	2.5%
8 Bydd cyfanswm y myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn codi o 54,714 yn 2008/09 i 59,000 yn 2012/13.	2008/09	2009/10	2010/11
	54,714	50,243 ¹	50,020
9 Bydd nifer y cwmnïau deilliadol gweithredol sydd wedi goroesi am dair blynedd o leiaf yn cynyddu 10% o 252 yn 2008/09 i 277 yn 2012/13.	2008/09	2009/10	2010/11
	252	301	376
10 Bydd y twf canrannol blynyddol mewn incwm o'r Cynghorau Ymchwil yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymaradwy ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (heb gynnwys y 'triongl euraid', sef Rhydychen, Caergrawnt a Llundain). [Yn 2008/09, roedd incwm AU Cymru o'r Cynghorau Ymchwil yn cyfrif am 4.8% o gyfanswm y DU, heb gynnwys prifysgolion y 'triongl euraid'.]	2007/08 to 2008/09	2008/09 to 2009/10	2009/10 to 2010/11
	Twf % incwm ar gyfer Sefydliadau AU Cymru 17.4%	Twf % incwm ar gyfer Sefydliadau AU Cymru 3.0%	Twf % incwm ar gyfer Sefydliadau AU Cymru 1.2%
	Twf % incwm ar gyfer Sefydliadau AU y DU 13.9%	Twf % incwm ar gyfer Sefydliadau AU y DU 3.1%	Twf % incwm ar gyfer Sefydliadau AU y DU -2.7%

¹ Ar hyn o bryd rydym yn priodoli hyn i gyfuniad o ostyngiad posibl mewn galw economaidd, ailstrwythuro cyrsiau am resymau academaidd a chynaliadwyedd ariannol amrywiol, a thynnu'n ôl o fasnachfreintiau. Byddem yn disgwyl rhywfaint o welliant yn y dyfodol mewn ymateb i ddarpariaeth ran-amser newydd sy'n dod i'r amlwg mewn rhai sefydliadau.

Mesur strategol	Gwaelodlin	Cynnydd	Cynnydd
11 Bydd gan o leiaf 75% o sefydliadau addysg uwch Cymru incwm blynyddol sy'n fwy na'r canolrif ar gyfer y DU (36% yn 2008/09), ac ni fydd unrhyw sefydliad yn y chwarter isaf erbyn 2012/13 (4 yn 2008/09).	2008/09	2009/10	2010/11
	Yn fwy na'r canolrif ar gyfer y DU 36% (4 sefydliad o blith 11)	Yn fwy na'r canolrif ar gyfer y DU 45% (5 sefydliad o blith 11)	Yn fwy na'r canolrif ar gyfer y DU 40% (4 sefydliad o blith 10)
	Yn y chwarter isaf 36% (4 sefydliad o blith 11)	Yn y chwarter isaf 36% (4 sefydliad o blith 11)	Yn y chwarter isaf 30% (3 sefydliad o blith 10)
12 Ni fydd unrhyw sefydliad addysg uwch yn cael ei ddsbarthu'n 'risg uchel' o dan brosesau adolygu risg sefydliadol CCAUC.	2008/09 Nifer y sefydliadau AU a ddsbarthwyd yn 'risg uchel'	2009/10 Nifer y sefydliadau AU a ddsbarthwyd yn 'risg uchel'	2010/11 Nifer y sefydliadau AU a ddsbarthwyd yn 'risg uchel'
	0	0	0

Datganiad y Cadeirydd

Eleni, gwnaethom roi newidiadau mawr ar waith i'n system gyllido yng nghyd-destun trefn ffioedd dysgu newydd i fyfyrwyr, mewn hinsawdd economaidd a chyllido anodd.

Roedd ein llythyr cyllido 2012 i brifysgolion a cholegau yn dangos sut y bydd pethau'n newid: byddwn yn dyrannu 37% yn llai o gyllid addysgu yn y flwyddyn nesaf, ond bydd sefydliadau yn derbyn mwy o incwm yn sgil ffioedd dysgu israddedigion amser-llawn a myfyrwyr TAR.

Ym mis Gorffennaf 2011, cyflwynodd sefydliadau addysg uwch (AU) eu cynlluniau cyntaf ar gyfer ffioedd o dan y trefniadau newydd, a oedd yn amlinellu'r ffordd roeddent yn bwriadu defnyddio cyfran o'r incwm o ffioedd dysgu uwch ar ehangu mynediad a hyrwyddo addysg uwch. Roedd y broses yn un heriol, yn rhannol oherwydd y cyfyngiadau amser, ond gwnaethom weithio gyda'r sefydliadau i'w helpu i fod mewn sefyllfa i godi eu ffioedd dysgu newydd yn 2012.

Hyd yn oed mewn cyfnod o ansicrwydd, mae prifysgolion wedi dangos eu bod yn addasu'n dda i'r newidiadau, gyda dangosyddion iechyd ariannol yn dangos bod y sector yn gyffredinol wedi gwella cynaliadwyedd ariannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn yr haf, gwnaethom groesawu Papur Gwyn Llywodraeth Cymru a oedd yn casglu barn ar gynigion ar gyfer Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru). Byddai hyn yn debygol o gynnwys darpariaeth ar gyfer diwygio swyddogaethau CCAUC yn cynnwys y rhai ar gyfer sicrwydd ansawdd a datblygu darpariaeth AU, a gweithgareddau rheoleiddio eraill. Gwnaethom astudio'r goblygiadau posibl i ni fel corff, ac i AU yng Nghymru yn fwy cyffredinol.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd llais cryf i fyfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru. Bu ymgysylltu â myfyrwyr yn elfen bwysig



o waith y cyngor cyllido yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda datblygiadau mewn perthynas â siarteri myfyrwyr, cyllido undebau myfyrwyr a chynrychiolaeth y myfyrwyr yn mynd rhagddynt yn gyflym yn ystod y cyfnod adrodd.

Ym mis Gorffennaf 2011, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar ein cyngor ar strwythur addysg uwch Cymru yn y dyfodol. Yr hydref hwnnw, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ei fod yn dymuno derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion yn ein hadroddiad.

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae prifysgolion de-orllewin Cymru yn gweithio tuag at uno; mae adolygiad o ddarpariaeth addysg uwch yng ngogledd-ddwyrain Cymru ar waith; ac mae Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd wedi trafod gyda'r nod o ffurfio prifysgol newydd yn y de-ddwyrain. Yn y cyfamser, mae'r Gweinidog dros Addysg wedi bod yn ymgynghori ar ddiddymu dau o blith tri o sefydliad ôl-92 yn ne-ddwyrain Cymru i greu un brifysgol fetropolitan ar gyfer y rhanbarth, drwy eu huno. Rydym yn parhau i greu y bydd ffurfio prifysgol newydd bwerus o fudd i ddysgwyr a chyflogwyr yn ne ddwyrain Cymru.

Rydym wedi gorffen ymgynghoriad ar ein Strategaeth Gorfforaethol newydd, a fydd yn amlinellu ein gweledigaeth a'n hamcanion ar gyfer addysg uwch yng Nghymru hyd at 2016. Rydym yn gobeithio y byddwn yn cael mewnbwn gan ystod eang o randdeiliaid ynghylch ein nodau a'r mesurau, y byddwn yn eu defnyddio i werthuso cynnydd o fewn y sector AU.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ffarwelio â'r Athro Syr Brian Smith, a ddaeth â chyfoeth o wybodaeth a doethineb i'n Cyngor yn ystod cyfnod

o naw mlynedd. Yn dilyn daliadaeth fer, ymddiswyddodd James Bennett o'n Cyngor ym mis Ebrill 2011 ar ôl cael ei benodi'n Brifathro coleg AB yng Nghymru. Hoffwn ddymuno pob lwc i'r ddau ohonynt i'r dyfodol. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon cafodd David Allen, y Fonesig Sandra Burslem a'r Athro Leni Oglesby eu hailbenodi i'r Cyngor am dair blynedd arall.

I gloi, hoffwn dalu teyrnged i weithrediaeth CCAUC. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyflwyniad olaf y prif weithredwr gan yr Athro Phil Gummett, a fydd yn ymddeol ym mis Hydref 2012 ar ôl 12 mlynedd gyda CCAUC - yn gyntaf fel cyfarwyddwr addysg uwch, ac yna fel prif weithredwr. Yn ystod yr amser hwn mae wedi llywyddu dros gorff sydd wedi cyflwyno trefniadau cyllido newydd yn wyneb gostyngiad yng nghyllid CCAUC mewn amser economaidd anodd, wedi gweithredu system gyllido ffioedd newydd yn llwyddiannus, yn cynnwys y broses o gymeradwyo cynlluniau ffioedd, ac wedi cyflwyno achos darbwyllo i'r Gweinidog Addysg i ailstrwythuro'r sector addysg uwch. Mae hefyd wedi goruchwylio newidiadau o fewn CCAUC ei hun, o wahanu'r cyngor cyllido oddi wrth ELWa, i'r gwaith mwy diweddar o ailstrwythuro a lleihau niferoedd y staff o ganlyniad i ostyngiad yn y costau rhedeg. Hoffwn ddiolch i Phil am bopeth y mae wedi'i wneud fel prif weithredwr yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf, i CCAUC ac addysg uwch yng Nghymru, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'i olynnydd, Dr David Blaney, yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Roger Thomas

Datganiad y Prif Weithredwr

Bu heriau – a chyflawniadau – y flwyddyn ddiwethaf yn gysylltiedig â'r sefyllfa economaidd anodd rydym ynnddi, a thoriadau mewn arian cyhoeddus.

Gwnaethom gyflwyno terfyn uchaf i brifysgolion o ran recriwtio israddedigion a myfyrwyr TAR yn 2012/13 er mwyn helpu i reoli cost pecyn cymorth myfyrwyr Cymru. Gwnaethom hefyd gynnal ymarfer i rannu'r niferoedd hyn yn wahanol yn 2013/14 yn unol â blaenoriaethau neu ddarpariaeth pynciau drud pob prifysgol; cyflawniadau targedau Llywodraeth Cymru; a lefel gyfartalog y ffioedd.

Hefyd, mae cynnal ymchwil o ansawdd ym mhrifysgolion Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel, ac er bod ein cyllid craidd i brifysgolion wedi'i leihau, rydym yn dal i gynnal lefel y cyllid ymchwil mewn termau arian parod – sydd o bwys penodol wrth i ni symud tuag at y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn 2014. Yn 2012 gwnaethom groesawu polisi gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru, sy'n debygol o gael effaith fawr ar gyllid a blaenoriaethau ymchwil mewn prifysgolion yn ystod y blynyddoedd nesaf. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth a'r sector addysg uwch i weithredu a datblygu'r strategaeth.

Rydym wedi cynnal ein hymrwymiad cadarn i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran cynhwysiant cymdeithasol a chefnogi economi fywiog. Mae ehangu mynediad i addysg uwch yn gyfraniad sylweddol i les pobl yng Nghymru, ac mae prifysgolion wedi parhau i weithredu'r rhaglen Ymggyraedd yn Ehangach, sy'n helpu i godi dyheadau'r rhai sydd â'r potensial o elwa ar addysg uwch. Mae Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd wedi parhau i recriwtio'n dda o ardaloedd cyfranogiad isel yn ne Cymru. Ac mae Twf Swyddi Cymru Llywodraeth Cymru wedi'n galluogi i ddatblygu'r cyfleoedd sydd eisoes yn cael eu cynnig gan ein rhaglen GO Wales drwy ymestyn cyfleoedd am brofiad gwaith i raddedigion di-waith.



Mae heriau'n parhau ar ffurf cyrraedd ein targed ar gyfer myfyrwyr rhan amser sy'n astudio yng Nghymru a, chan edrych i'r dyfodol, y pecyn cymorth a ffioedd a fydd yn cael ei gynnig i'r myfyrwyr hyn yng nghydestun newidiadau sydd eisoes wedi cael eu rhoi ar waith dros y ffin. Mae llif y myfyrwyr rhwng Cymru a Lloegr o fewn y drefn ffioedd newydd, a'i heffaith ar gymorth i fyfyrwyr a phrifysgolion yng Nghymru, yn anhysbys ar hyn o bryd. Rydym yn hyderus y bydd prifysgolion Cymru yn cynnal eu dull o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yn llwyddiannus er gwaethaf y newidiadau diweddar mewn trefniadau i fisâu myfyrwyr rhyngwladol.

Dyma fy adroddiad blynyddol olaf fel prif weithredwr. Bu'n bleser ac yn ffrainc i gael y cyfle hwn i weithio gyda, a rhwng, Llywodraeth Cymru a'r sector addysg uwch yng Nghymru, ac yn fwy eang ar draws y DU. Cefais fy mendithio gyda chymorth a chynngor sylweddol, o'r llywodraeth a'r sector, a Chynngor CCAUC, yn cynnwys y ddau Gadeirydd rwyf wedi gweithio gyda hwy. Bu staff CCAUC, yn anad dim, yn gydweithwyr rhagorol, yn eithriadol o ymrwymedig ac yn neilltuol o gymwys, a bu'n bleser gweithio gyda hwy. Hoffwn ddymuno pob llwyddiant i'm holynydd, David Blaney, rwyf yn hyderus y gall ddisgwyl yr un cymorth hael.

Phil Gummatt

Cyllido addysg uwch

Rydym yn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru ar sail blwyddyn ariannol (BAr) (1 Ebrill hyd 31 Mawrth), ac rydym yn dyrannu'r rhan fwyaf o'n cyllid ar sail blwyddyn academiaidd (BAc) (1 Awst hyd 31 Gorffennaf).

- Rydym fel arfer yn cyhoeddi ein grant blynyddol i sefydliadau addysg uwch ym mis Mawrth bob blwyddyn.
- Yn y flwyddyn ariannol 2011/12, gwnaethom weithredu newidiadau pellach i drefniadau cyllido CCAUC, yn dilyn ymgynghoriad â'r sector addysg uwch.
- Gwnaethom lunio arweiniad ar sut i reoli niferoedd myfyrwyr israddedigion a myfyrwyr TAR o 2011/12.
- Gwnaethom ymgynghori ar newidiadau arfaethedig pellach i'r dull cyllido addysg uwch yng Nghymru yn 2012/13 a 2013/14, yng ngoleuni'r drefn newydd o ran ffioedd dysgu.
- Gwnaethom gyhoeddi newid sylweddol i gyllido addysg uwch o 2013/14. Byddai Ailddyrannu Niferoedd Myfyrwyr yn ailddyrannu'r niferoedd israddedigion amser-llawn a myfyrwyr TAR o amgylch y sector AU, yn seiliedig ar bortffolios prifysgolion o bynciau drud a phynciau blaenoriaeth, pa mor dda maent yn perfformio yn erbyn targedau *Er mwyn ein Dyfodol*, a ph'un a fyddant yn gostwng eu ffi gyfartalog i £7,500 neu lai.
- Gwnaethom ddarparu £3,184,326 i brifysgolion Cymru o dan ein cynllun arian cyfatebol i annog rhoddion gwirfoddol, a oedd yn ychwanegu at roddion cymwys i sefydliadau AU.

Dyraniadau cyllid fformiwla ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2011/12

Gwnaethom gyhoeddi dyraniadau grant o dros £384.6 miliwn ar gyfer addysg uwch yn 2011/12 ac £16.4 miliwn yn ychwanegol yn y flwyddyn ariannol 2011-12 er mwyn cefnogi ymrwymadau parhaus yn y flwyddyn ariannol (yn cynnwys *Ymgeisio yn Uwch, Ymgynghoriad yn Ehangach a Cymru'n Un*).

O hyn, rhoddwyd £345.3 miliwn ar ffurf grant fformiwla (prif ffrwd) i'r sector addysg uwch ar gyfer gweithgareddau addysgu, arloesedd ac ymgysylltu, ymchwil a hyfforddiant ymchwil ôl-raddedig. Roedd hyn yn cynnwys:

- £260.2 miliwn ar gyfer addysgu
- £71.4 miliwn ar gyfer ymchwil
- £5.2 miliwn ar gyfer hyfforddiant ymchwil ôl-raddedig
- £8.5 miliwn ar gyfer gweithgareddau arloesedd ac ymgysylltu

Dyraniadau cyllid fformiwla 2011/12

Sefydliad	Cyfanswm y Dyraniadau Cyllid ar gyfer Addysgu (yn cynnwys premia, per capita, ERASMUS a hepgor ffioedd rhan amser)	Ymchwil (QR)	Dyraniadau arloesedd ac ymgysylltu	PGR (ymchwil ôl-radd)	Prif Gyfanswm
	£	£	£	£	£
Prifysgol Morgannwg	43,915,700	2,371,044	737,496	254,725	47,278,965
Prifysgol Aberystwyth	21,552,495	7,381,395	567,763	397,708	29,899,361
Prifysgol Bangor	20,675,654	6,951,624	501,254	693,131	28,821,663
Prifysgol Caerdydd	60,765,691	39,956,038	1,732,193	2,744,238	105,198,160
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	9,883,187	663,523	152,705	44,682	10,744,097
Prifysgol Abertawe	25,881,762	11,645,398	907,489	928,161	39,362,810
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	22,507,618	1,117,943	410,814	83,255	24,119,630
Prifysgol Cymru, Casnewydd	17,022,181	453,777	267,345	15,359	17,758,662
Prifysgol Glyndŵr	13,541,204	0	205,576	-	13,746,780
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	13,785,612	139,284	255,260	9,076	14,189,232
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	8,103,082	0	262,105	-	8,365,187
Prifysgol Cymru	0	397,317	-	-	397,317
Coleg Pen-y-bont	61,857	-	-	-	61,857
Coleg Sir Gâr	953,141	-	-	-	953,141
Grŵp Llandrillo Menai	1,408,910	-	-	-	1,408,910
Coleg Castell-nedd Port Talbot	132,854	-	-	-	132,854
Coleg Gŵyr Abertawe	32,097	-	-	-	32,097
Cyfanswm	260,223,045	71,077,342	6,000,000	5,170,332	342,470,719

*Efallai na fydd y ffigurau'n adio'n union oherwydd talgrynnu

Grant Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Gwaelodlin	
Rheolaidd	2011/12
Grant ar gyfer addysgu	(£)
Prif grant fformiwla	238,901,511
Per capita	5,324,100
Premiwm ehangu mynediad	9,990,922
Premiwm cyfrwng Cymraeg	1,489,706
Premiwm Anabledd	994,400
Premiwm rhan amser	1,771,285
ERASMUS	1,221,701
Hepgor ffioedd rhan-amser	529,420
Cyfanswm	260,223,045
Grant ar gyfer ymchwil	
Grant ansawdd YAY	71,077,344
PGR (ymchwil ôl-radd)	5,170,336
Mentrau ymchwil	352,123
Cyfanswm	76,599,803
Strategaethau a mentrau	
Strategaethau a mentrau	39,168,766
Cronfa amrywiol y Prif Weithredwr	200,000
Cyfanswm	39,368,766
Arloesedd ac ymgysylltu	
GO Wales (incwm WEFO)	1,668,367
GO Wales (incwm WEFO)	-1,500,000
Arloesedd ac ymgysylltiad - cyllid fformiwla	6,000,000
Arloesedd ac ymgysylltiad - cynigion cystadleuol	2,328,477
Cyfanswm	8,496,844
Cyfanswm Rheolaidd	384,688,458




Cofrestriadau yn ôl Sefydliad, Lefel a Modd 2010/11


Sefydliad	Israddedig gradd		Israddedig dim gradd		
	Amser-llawn	Rhyngosod Blwyddyn Allan	Amser-llawn	Rhyngosod Blwyddyn Allan	
Prifysgol Morgannwg	9,952	61	1,581	0	
Prifysgol Aberystwyth	6,937	128	112	18	
Prifysgol Bangor	6,909	30	97	0	
Prifysgol Caerdydd	16,071	318	105	0	
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	2,860	0	40	0	
Prifysgol Abertawe	10,085	29	224	0	
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	6,571	59	650	2	
Prifysgol Cymru, Casnewydd	2,883	0	350	0	
Prifysgol Glyndŵr	3,266	0	436	0	
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	2,656	3	426	0	
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	0	0	0	0	
Coleg Pen-y-bont	0	0	28	0	
Coleg Sir Gâr	199	0	1	0	
Grŵp Llandrillo Menai	169	0	272	0	
Coleg Castell-nedd Port Talbot	0	0	24	0	
Coleg Gŵyr Abertawe	0	0	0	0	
Cyfanswm	68,558	628	4,345	20	

Israddedig		Ôl-raddedig a Addysgir		Ymchwil ôl-raddedig	
Rhan amser (ac eithrio ffranseis)	Rhan amser (ffranseis)	Amser-llawn	Rhan amser	Amser-llawn	Rhan amser
2,455	1,489	1,621	1,595	156	264
1,906	40	384	883	268	61
619	16	1,317	693	559	134
5,908	0	2,848	3,169	1,294	352
2,011	5	1,297	574	34	67
1,732	0	1,021	583	568	134
956	83	1,085	1,350	168	135
2,190	1,602	372	1,153	44	28
3,102	438	745	497	45	80
1,109	0	252	456	24	62
5,317	0	0	371	0	0
4	0	0	0	0	0
128	0	0	0	0	0
317	0	0	0	0	0
39	0	0	0	0	0
50	0	0	22	0	0
27,843	3,673	10,942	11,346	3,160	1,317


Cofrestriadau yn ôl lefel a modd



Cofrestriadau yn ôl lefel



Cofrestriadau yn ôl modd



Ehangu mynediad

Sicrhau tegwch, cyfle a llwyddiant mewn addysg uwch.

Un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yw cyfiawnder cymdeithasol.

Mae prifysgolion yn cyfrannu at hyn drwy ehangu mynediad i addysg uwch.

Ein nod yw:

- cynyddu mynediad i addysg uwch i ddysgwyr o bob oedran, yn cynnwys y rhai heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes addysg uwch ac o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
- blaenoriaethu llwyddiant dysgu myfyrwyr a chadw.
- annog cyfleoedd dysgu hyblyg, yn cynnwys astudiaeth ran amser.

Bob blwyddyn, rydym yn gweithio gyda phrifysgolion i:

- weithredu strategaethau i ehangu mynediad i addysg uwch, sy'n cynnwys cynyddu'r ddarpariaeth ran amser a'r cyfleoedd i fyfyrwyr anabl.
- darparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr godi eu dyheadau sgiliau ac addysg i ddatblygu o AU, a galluogi myfyrwyr i wireddu eu potensial a chwblhau eu hastudiaethau.
- darparu cyllid ychwanegol - 'premiwm' - ar gyfer recriwtio: myfyrwyr o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd cyfranogiad isel eraill; myfyrwyr â chymwysterau nad ydynt yn draddodiadol; a myfyrwyr anabl.
- cynyddu cyfleoedd ar gyfer gwaith rhanbarthol, cydweithredol, traws sector ac aml-asiantaeth, yn cynnwys drwy Raglen Ymggyrraedd yn Ehangach, i ehangu mynediad yn fwy effeithiol.

Gweithgareddau yn 2011-12

- Cafodd sefydliadau addysg uwch £9.99 miliwn ar gyfer cyllid premiwm ehangu mynediad a chadw. Roedd cyfanswm y cyllid premiwm ar gyfer myfyrwyr anabl yn fwy na £990,000. Cafodd sefydliadau tua £22 miliwn ar gyfer y fenter Ymggyrraedd yn Ehangach, a £5.6 miliwn i weithredu strategaethau ehangu mynediad a chefnogi darpariaeth ran amser.
- Gwnaethom ddarparu canllawiau i sefydliadau i ddatblygu eu Strategaethau Ehangu Mynediad, a oedd yn cynnwys y cyfle i ddatblygu Strategaethau Ehangu Mynediad a'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu ar y cyd.
- Rydym wedi cymeradwyo cynlluniau ffioedd un deg tri o brifysgolion a cholegau ac yn dilyn hynny cawsant ganiatâd i gynyddu eu ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig amser-llawn a chysiau TAR hyd at uchafswm o £9,000 o flwyddyn academiaidd 2012 ymlaen.
- Mae'r ffigurau diweddaraf ar draws y DU - Dangosyddion Perfformiad 2010-11 - am gyfansoddiad y sector addysg uwch yn dangos bod prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i berfformio'n dda wrth recriwtio myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Gwnaethom barhau â'r cyllid ar gyfer Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (UHOVI), a oedd yn cynnwys darparu £1.39 miliwn i ddysgwyr mewn AU o ardal UHOVI yn 2011/12.
- Gwnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Tlodi Plant, sy'n nodi ein camau gweithredu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant.

Cyflenwi cyfrifoldebau yn 2011-12, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
<p>Nodi a rhannu arferion effeithiol o ran cadw, drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> gyhoeddi canllawiau'r Academi AU ym mis Ebrill 2011 a monitro cyfraddau cadw a chwblhau. 	<p>Cyflawnwyd.</p> <p>Cyhoeddwyd canllawiau'r Academi AU ym mis Ebrill 2011. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol ar fonitro cyfraddau cadw a llwyddiant i Bwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd CCAUC ym mis Mehefin 2011.</p> <p>Cynhaliwyd gwaith monitro blynyddol ar darged cwblhau modiwl y Strategaeth Gorfforaethol, ac adroddwyd yn ôl i'r Cyngor ym mis Hydref 2011.</p>
<p>Hyrwyddo'r gwaith o ledaenu arferion da yn Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (UHOVI) drwy ddigwyddiad y sector AU ym mis Mai 2011.</p>	<p>Cynhaliwyd digwyddiad y sector AU ym mis Mai 2011, a oedd yn cynnwys cyflwyniad ar arferion da gan Gyfarwyddwr Prosiectau UHOVI.</p> <p>Cyfarfodydd parhaus gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac UHOVI ar gamau gweithredu pellach posibl.</p>
<p>I:</p> <ul style="list-style-type: none"> Monitro ac adrodd yn ôl ar y sail tystiolaeth ar gyfer darpariaeth ran amser sy'n canolbwyntio ar y cyflogwr, a chyfleoedd ar gyfer dilyniant o AB. cyflwyno adroddiad i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau erbyn mis Mawrth 2012. 	<p>Cyflawnwyd.</p> <p>Gwnaeth CCAUC:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ystyried tystiolaeth ystadegol a thystiolaeth arall, a llywio prosiect FfCChC ar ddilyniant. Comisiynu adolygiad o ganfyddiadau cyflogwyr o addysg uwch drwy ymgynghoriaeth Old Bell3. Cyflawnwyd darpariaeth ran amser sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr, a seminar ar ddilyniant o AB; a chynhadledd Gradd Sylfaen gyda'r Academi Addysg Uwch. Cyflwynwyd adroddiad ar ddarpariaeth ran amser i'r Gweinidog Addysg ym mis Mawrth 2012.

Profiad y myfyriwr

Sicrhau bod profiad dysgu'r myfyrrwyr o ansawdd uchel.

Mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr, ac arolygon o brofiad myfyrrwyr rhyngwladol yng Nghymru, yn dangos sut mae prifysgolion yn sicrhau bod profiad rhagorol i fyfyrrwyr o boblogaeth amrywiol yn flaenoriaeth, ac yn sicrhau bod myfyrrwyr yn cael y wybodaeth angenrheidiol a'r cyfle i leisio'u barn.

Rydym yn sicrhau bod safon y ddarpariaeth a gyllidir mewn sefydliadau addysg uwch yn cael ei hasesu, ac yn helpu'r sector AU i gynyddu nifer y myfyrrwyr sy'n cwblhau rhywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ein nod yw:

- sicrhau bod profiad dysgu'r myfyrrwyr o safon uchel ym maes addysg uwch.
- annog sefydliadau i wella profiad y myfyriwr yn barhaus ar gyfer poblogaeth amrywiol o fyfyrrwyr.
- gwerthuso dysgu sydd wedi'i wella gan dechnoleg i adlewyrchu technegau newydd ac arloesol.
- cydweithio â'r sector AU i ymestyn yr ystod o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- helpu sefydliadau i wella'u darpariaeth.
- cefnogi Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang drwy rwydweithiau'r sector AU.
- cefnogi strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru a sicrhau bod sefydliadau addysg uwch yn cyfrannu'n effeithiol tuag at ddatblygiadau Ewropeaidd.
- gweithio gyda darparwyr AU i annog rhaglenni arloesol a darpariaeth fwy hyblyg.
- parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Bob blwyddyn, rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch:

- sy'n derbyn cyllid i weithredu strategaethau dysgu ac addysgu a rhannu arfer da, yn cynnwys gwella dysgu ac addysgu drwy dechnoleg.
- y mae eu safonau a'u hansawdd yn cael eu hasesu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA).
- drwy gyllido'r Academi Addysg Uwch sy'n helpu'r sector AU i ddarparu'r profiad dysgu gorau posibl i bob myfyriwr.
- rydym yn eu cyllido i gynnal a datblygu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- sy'n enwebu aelodau ar gyfer ein Pwyllgor Profiad Myfyrrwyr, Addysgu ac Ansawdd, a'n Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu, sy'n cynghori ein Cyngor ar faterion polisi yn y meysydd hyn.
- mynd i'r afael â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang.

Rydym hefyd yn gweithio gyda:

- Uned Ryngwladol AU y DU, Addysg Uwch Cymru Brwsel ac Addysg Uwch Cymru ar gyfleoedd sy'n annog rhyngwladoli ymhellach mewn sefydliadau AU.
- Undeb Cenedlaethol y Myfyrrwyr, Cymru, drwy Fenter Ymgysylltu â Myfyrrwyr Cymru (WISE), a thrwy gefnogi ymgyrch 'Dweud eich Dweud'.

Gweithgareddau yn 2011-12

- Cymeradwyodd CCAUC gynlluniau ffioedd cyntaf sefydliadau, a oedd yn amlinellu sut y byddent yn gwario rhywfaint o'u hincwm yn sgil y ffioedd ychwanegol ar ehangu mynediad a hyrwyddo AU, ac a oedd yn caniatáu iddynt godi ffioedd o hyd at £4,000 ar israddedigion amser-llawn a myfyrrwyr TAR o 2012/13 ymlaen.
- Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y mae

CCAUC wedi bod yn gyfrwng i'w sefydlu, yn cefnogi addysg uwch cyfrwng Cymraeg gan weithio gyda a thrwy brifysgolion Cymru. Cafodd ei sefydlu'n ffurfiol ym mis Mawrth 2011 a gwahoddwyd myfyrwyr, darpar fyfyrwyr a staff i ymuno â'r Coleg o fis Medi 2012 ymlaen.

- Gwnaethom barhau i gefnogi gwaith yr Academi AU i ddatblygu dysgu ac addysgu a **phrofiad y myfyriwr**. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi'r Fframwaith Safonau Proffesiynol ar gyfer y DU, sy'n helpu i wella ansawdd ac atebolrwydd addysgu ym maes addysg uwch.
- Gwnaethom gyhoeddi canllaw ar ddatblygu **siartrau myfyrwyr**, y dylid cytuno arnynt ar y cyd gydag undebau myfyrwyr, ac a ddylai nodi rolau a chyfrifoldebau sefydliadau a'u myfyrwyr yn glir. Gwnaethom hefyd ddarparu canllaw ar arfer gorau wrth gyllido undebau myfyrwyr effeithiol, democrataidd, a chynrychiolaeth i fyfyrwyr.
- Roedd canlyniadau'r **Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2011** yn dangos, yn gyffredinol, bod 83% o'r ymatebwyr yng Nghymru yn fodlon ar eu cwrs.
- Gwnaethom gadarnhau y byddai £1.252 miliwn ar gael i gefnogi elfen dysgu ac addysgu **strategaethau dysgu ac addysgu ac ehangu mynediad sefydliadau**.
- Canfu adolygiad gweithredu o'n **strategaeth Gwella Dysgu ac Addysgu drwy Dechnoleg** bod lefel dda o aeddfedrwydd mewn arferion ar draws y sector addysg uwch.
- Dangoswyd prosiectau a gyllidwyd gan CCAUC, **Gwella a Rhaglen Meithrin Capasiti y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC)**,

mewn digwyddiad ym mis Ebrill 2011, a chafodd y staff ym maes AU gyfle i fyfyrion ar lwyddiant a'r gwersi a ddysgwyd o **brosiectau arloesedd dysgu ac addysgu** a gwblhawyd yn ddiweddar.

- Gwnaethom gyhoeddi ein **Hymagwedd Strategol at Brofiad y Myfyriwr**, a oedd yn nodi: nodweddion profiad rhagorol i'r myfyriwr; mesurau llwyddiant; a'r camau gweithredu y byddem yn eu dilyn mewn perthynas â'n bwriadau yn ein Strategaeth Gorfforaethol. Roeddent yn cynnwys cyhoeddi arweiniad ar **Setiau Gwybodaeth Allweddol** i helpu darpar fyfyrwyr i ddewis cwrs drwy gael gwybodaeth am y gost o astudio, yr amser a dreulir ar weithgareddau dysgu ac addysgu, dulliau asesu cyrsiau, bodlonrwydd myfyrwyr a chyflogadwyedd graddedigion o fis Medi 2012.
- Gyda chymorth y Gweinidog Addysg a Llywydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, gwnaethom ail-lansio **Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru (WISE)** a oedd yn cynnwys addewid i wella'r ffordd y bydd myfyrwyr addysg uwch yn derbyn ac yn rhoi adborth mewn prifysgolion a cholegau.
- Gwnaethom ymgynghori ar y newidiadau i **adolygiadau sefydliadol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd o brifysgolion yng Nghymru** a chyhoeddi'r canlyniadau.
- Gwnaethom gyhoeddi gweithdrefnau diwygiedig ar **achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon**.

Cyflenwi cyfrifoldebau yn 2011–12, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
<p>Gweithredu ein <i>Hymagwedd Strategol at Brofiad y Myfyriwr</i> gan adrodd am gynnydd yn flynyddol i Bwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd CCAUC. I gynnwys gweithio gydag UCM Cymru i sefydlu arferion da yn y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyllido undebau myfyrwyr a • chynrychiolaeth myfyrwyr ar gyrff sy'n gwneud penderfyniadau gwella profiad y myfyriwr. 	<p>Cyflawnwyd.</p> <p>Cafodd cyfeiriadau at gyllido undebau myfyrwyr eu cynnwys i'r canllaw ar strategaeth dysgu ac addysgu.</p> <p>Yn dilyn ein gwaith gydag UCM Cymru ac Addysg Uwch Cymru, ac yn dilyn ymgynghoriad, gwnaethom gyhoeddi Canllaw ar arfer gorau wrth gyllido undebau myfyrwyr effeithiol, democrataidd, a chynrychiolaeth i fyfyrwyr ar 28 Mawrth 2012.</p>
<p>Gweithio gydag UCM Cymru a sefydliadau AU i gytuno ar siarter y myfyrwyr.</p>	<p>Cyflawnwyd.</p> <p>Cytunwyd ar ganllaw gydag UCM Cymru ac Addysg Uwch Cymru ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Medi 2011.</p>
<p>Sicrhau bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cael ei lansio, cyn iddo ddod yn gwbl weithredol ym mis Medi 2011.</p>	<p>Cyflawnwyd.</p> <p>Y Coleg bellach ar agor. Sefydlwyd cyfarfodydd monitro ddwywaith y flwyddyn.</p>
<p>Parhau i ymgysylltu â Phrifysgol Cymru ynghylch sicrwydd ansawdd a llywodraethu, gan adrodd ar ganlyniadau'r Adolygiad Sefydliadol erbyn mis Mehefin 2011.</p>	<p>Anfonwyd llythyr ym mis Gorffennaf 2011.</p>

Sgiliau

Sicrhau bod pawb sy'n graddio yn barod am fyd gwaith a'u rôl fel dinasyddion.

Mae prifysgolion Cymru yn cynhyrchu dros 30,000 o raddedigion y flwyddyn.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb sy'n graddio yn barod am fyd gwaith a'u rôl fel dinasyddion.

Ein nod yw:

- cadw sgiliau graddedigion yn economi Cymru a gwella cyfraniad sgiliau graddedigion Cymru yn fwy eang, drwy raglenni hyblyg a dysgu seiliedig ar waith.
- cynyddu sgiliau lefel uwch a sgiliau entrepreneuriaid yn y gweithlu.
- annog arweiniad gyrfaedd a gwella cyflogadwyedd.
- cefnogi sefydliadau i ddarparu athrawon newydd gymhwyso o'r safon uchaf.

Bob blwyddyn, rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch:

- i gyfrannu at ddatblygiad economaidd a chyflawni cyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys ym meysydd sgiliau a chyflogadwyedd.
- sy'n arweinwyr ym maes y mentrau cyflogadwyedd yn y DU gyda chynlluniau fel GO Wales, sydd wedi cryfhau'r cyswllt â chyflogwyr drwy gefnogi amrywiaeth o gyfleoedd profiad gwaith a hyfforddi.
- i annog canolfannau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) i fodloni'r blaenoriaethau hyfforddiant ac addysgu a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, Estyn a CCAUC, sy'n cynnwys: hyfforddi athrawon ar gyfer pynciau blaenoriaethol uwchradd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg; partneriaethau ysgol; cynnal a gwella safon; a datblygu'r cwricwlwm.
- i gefnogi'r pynciau blaenoriaeth, sef gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) ac ieithoedd tramor modern.

Gweithgareddau yn 2011-12

- Gwnaethom amlinellu ein hymrwymiad i sgiliau graddedigion drwy ddatblygu **Fframwaith Sgiliau a Chyflogadwyedd** ynghyd â'n partneriaid Addysg Uwch Cymru, CBI Cymru ac UCM Cymru.
- Cafodd nifer o feysydd pwnc ddyraniadau cyllid rhanbarthol gan CCAUC, sydd wedi'u llunio i baru anghenion dysgwyr a busnesau'n well â'r economi leol, gwella sgiliau a helpu cyflogwyr i gael mynediad at gymorth ac arbenigedd addysg uwch leol. Gwnaethom hefyd amlinellu'r trefniadau ar gyfer parhau i ddatblygu dimensiwn rhanbarthol o ran cynllunio a chyflenwi AU.
- Gwnaethom barhau i gydariannu Rhaglen STEM Addysg Uwch, sef menter i hyrwyddo **gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM)** ac annog arloesedd yng Nghymru a Lloegr, sydd o dan arweiniad Prifysgol Abertawe yng Nghymru.
- Gwnaethom barhau i ariannu CILT Cymru i gyflenwi'r 'rhanbarth' Cymraeg o fewn menter ehangach Lloegr *Llwybrau i Ieithoedd*, gan alluogi grwpiau o'n prifysgolion i weithio'n agos gydag ysgolion a cholegau i ennyn brwdfrydedd ac yn annog pobl i **astudio ieithoedd**.
- Mae **GO Wales**, y rhaglen sefydledig sy'n helpu graddedigion a myfyrwyr i ddod o hyd i waith, a reolir gan CCAUC ac a gyflenwir drwy brifysgolion, wedi sicrhau cyllid sylweddol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop o fis Ionawr 2012 hyd at fis Rhagfyr 2014.

Cyflenwi tasgau allweddol yn 2011–12, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
<p>Parhau â'r gwaith o wella cyflogadwyedd graddedigion, yn cynnwys cyhoeddiad sefydliadau o'u datganiad o gyflogadwyedd.</p>	<p>Cyflawnwyd.</p> <p>Mae'r holl sefydliadau AU a rhan fwyaf y sefydliadau AB a gyllidir yn uniongyrchol wedi cyhoeddi datganiadau cyflogadwyedd ac mae'r rhain wedi cael eu hadolygu gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.</p> <p>Gwaith parhaus gyda Cholegau Cymru mewn perthynas â datganiadau sefydliadau AB eraill.</p>

Trosglwyddo Gwybodaeth

Sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, cymunedau lleol ac asiantaethau eraill.

Mae prifysgolion yn cyfrannu dros £2 biliwn bob blwyddyn i economi Cymru, yn denu buddsoddiad o'r tu allan ac yn cynhyrchu enillion allforio.

Mae'n hanfodol bod y wybodaeth a ddatblygir yn y sefydliadau addysg uwch yn cael ei gwneud yn hygyrch fel y gall yr economi a'r gymdeithas ei defnyddio'n fwy eang, wrth i sefydliadau ddatblygu eu cysylltiadau â chyflogwyr, a'u rolau diwylliannol a dinesig.

Ein nod yw:

- bod o les i'r economi a chymdeithas - creu cyfoeth a gwybodaeth - drwy sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol rhwng sefydliadau AU a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol.

Bob blwyddyn, rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch:

- i gyfrannu at weithgareddau sy'n gysylltiedig â datblygiad economaidd a chyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys ym meysydd cynaliadwyedd, menter, arloesedd a buddsoddi o'r tu allan.
- sy'n gweithredu'r strategaethau Arloesedd ac Ymgysylltu er mwyn hybu lles economaidd a chymdeithasol.

- i gynyddu'r gwaith o fasnacheiddio gwaith ymchwil.
- i ddatblygu eu rolau ymgysylltu â'r cyhoedd ymhellach.

Gweithgareddau yn 2011-12

- Dechreuwyd cylch tair blynedd newydd o **gyllid Arloesedd ac Ymgysylltu**, a gwnaethom gyflenwi mwy na £5.98 miliwn i gefnogi strategaethau Arloesedd ac Ymgysylltu. Mae'r cyllid yn cefnogi nifer o brosiectau sefydliadol a chydweithredol sy'n cael effaith ar les cymdeithasol ac economaidd.
- Yn 2010/11, cynhyrchodd prifysgolion Cymru, sy'n cyfrif am tua 5% o addysg uwch y DU, 10% o'r holl fusnesau newydd a ddechreuwyd gan raddedigion y DU a thros 10% o drosiant amcangyfrifol (tua £28.4 miliwn) yr holl gwmnïau gweithredol a ddechreuwyd gan raddedigion y DU. Dyma ganfyddiadau Arolwg diweddaraf Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned y DU ar y ffordd y mae sefydliadau AU yn gweithio gyda busnesau ac yn cynhyrchu busnes.

Ymchwil

Sicrhau gwell perfformiad ymchwil i fod yn sail i'r economi wybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol.

Mae ymchwil yn creu gwybodaeth, a phan gymhwysir y wybodaeth hon, gall fynd i'r afael â phryderon y gymdeithas, darparu swyddi newydd, lefel uchel, a chreu cyfoeth.

Rydym yn cyfeirio cyllid er mwyn helpu i gryfhau ymchwil, a chynnal ymchwil rhagorol cynaliadwy sy'n cael ei gydnabod ledled y byd. Rydym hefyd yn annog prifysgolion i gydweithio er mwyn cryfhau eu nodau ymchwil eu hunain.

Ein nod yw:

- cynnal sylfaen ymchwil sy'n ffynnu ac sy'n gystadleuol yn rhyngwladol.
- annog grwpiau ymchwil a chydweithio ar draws ystod o ddisgyblaethau, yn enwedig mewn meysydd o flaenoriaeth a chryfder cenedlaethol.
- annog y sector AU i sicrhau mwy o incwm ymchwil o ffynonellau ar wahân i CCAUC, drwy grantiau Cyngor Ymchwil a thrwy fasnacheiddio'u cynnyrch ymchwil.
- cefnogi datblygiad economaidd drwy ddenu buddsoddwyr newydd o'r tu allan ar sail perthnasedd masnachol arbenigedd ymchwil Cymru.
- cynyddu maint a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r gymuned ôl-raddedig.

Bob blwyddyn, rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch:

- sy'n ymgymryd â gwaith ymchwil sy'n hybu gwybodaeth ac arferion y gellir eu cymhwyso ymhellach a'i throsglwyddo.
- sy'n derbyn cyllid CCAUC ar gyfer ymchwil drwy'r ffrwd gyllido QR (Ymchwil o Ansawdd), sy'n cefnogi ymchwil rhagorol yn seiliedig ar ganlyniadau'r Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY).

- drwy ddarparu cymorth gan ein ffrwd gyllido ymchwil ôl-radd (YOR) sy'n hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr.
- i weithio ar ddatblygiadau sy'n cryfhau eu gallu i wneud gwaith ymchwil drwy gydweithio.

Gweithgareddau yn 2011-12

- Gwnaethom gyfrannu at strategaeth **Gwyddoniaeth i Gymru** Llywodraeth Cymru.
- Ochr yn ochr â sefydliadau cyllido eraill y DU, gwnaethom gyhoeddi arweiniad ar asesu a gweithdrefnau ar gyfer **Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014**.
- Ynghyd â chyllidwyr ymchwil eraill yn y DU, a rhanddeiliaid eraill, gwnaethom gytuno ar nifer o egwyddorion i **gefnogi ymchwilwyr** sy'n symud rhwng sail ymchwil y DU a gwledydd eraill ledled y byd, sy'n cynnwys hyrwyddo *Euraxess UK* fel y prif borth o wybodaeth i ymchwilwyr.
- Gwnaethom gyhoeddi £4.2 miliwn o **gyllid cyfalaf ymchwil** ar gyfer sefydliadau cymwys, a ddarparwyd yn rhannol gan Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau y DU, a Llywodraeth Cymru, i'w ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu isadeiledd ymchwil corfforol.

THEMÂU ATEGOL

Ailgyflunio a Chydweithio

Cynhyrchu system addysg uwch ailgyfluniedig gyda darparwyr cryf sydd, drwy weithio mewn partneriaeth, yn enwedig yn rhanbarthol, yn cynnig cyfleoedd addysg uwch mwy hygyrch.

Rydym wedi ymrwmo i gyflawni blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o system addysg uwch gref, ailgyfluniedig sy'n cynnig cyfleoedd addysg uwch mwy hygyrch a darpariaeth well i fyfyrwyr drwy helpu i adeiladu màs critigol.

Mae AU yng Nghymru yn rhan o farchnad ehangach i fyfyrwyr a staff, yn y DU ac yn rhyngwladol. Rydym am weld sector addysg uwch cryfach gyda darparwyr yn gweithio ac yn uno, i helpu i wella cyfleoedd cyllido a'u gwneud yn fwy gwydn.

Ein nodau yw:

- system addysg uwch amrywiol sy'n gystadleuol yn rhyngwladol.
- diwylliant o gydweithio rhanbarthol wedi'i wreiddio'n ddwfn a gostyngiad yn y dyblygu diangen.
- ymagwedd fwy strategol tuag at ddsbarthu ein cyllid i sefydliadau AU.
- lleihad yn nifer y prifysgolion, ond nid nifer y lleoliadau ar gyfer addysg uwch.
- ni ddylai mwy na dau sefydliad AU gael incwm sy'n is na chanolrif y DU, ac ni ddylai'r un ohonynt fod yn ne-ddwyrain Cymru.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch:

- i adolygu eu strategaethau ystad, sy'n cynnwys gofynion llety myfyrwyr a materion ariannol a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Gweithgareddau yn 2011-12

- Gwnaethom gyflwyno cyngor i'r Gweinidog Addysg am strwythur y sector addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol. Yn sgil hynny cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r cyngor, a gwahodd cyflwyniadau gan randdeiliaid â diddordeb cyn cyhoeddi ei chanlyniad dewisedig ym mis Tachwedd 2011.
- Gwnaethom gyhoeddi canlyniadau ymarfer ailddyrannu niferoedd myfyrwyr 2013/14, a fyddai'n ailddyrannu niferoedd israddedigion amser-llawn a myfyrwyr TAR ar draws y sector AU yng Nghymru yn ôl: blaenoriaethau neu ddarpariaeth pynciau drud mewn prifysgol; pa mor llwyddiannus oeddent wrth fodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru; a ph'un a yw lefelau eu ffioedd wedi'u pennu ar lefel o £7,500 neu lai ar gyfartaledd.
- Gwnaethom adolygu'r meini prawf ar gyfer cyflwyniadau i'n Cronfa Datblygu Strategol i ganolbwyntio mwy ar gynigion i ailgyflunio'r sector a gwnaethom gyhoeddi na fyddem yn ystyried cynigion newydd drwy ein Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio, a oedd wedi cefnogi nifer o brosiectau mawr ers 2002, o ystyried y byddai cyllid *Ymgeisio'n Uwch* yn dod i ben.

Cyflenwi tasgau allweddol yn 2011–12, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
Datblygu targed CCAUC ar incwm sefydliadol a'n datganiad ar ddyfodol y sector, gan ddefnyddio'r liferi sydd ar gael.	<p>Cyflwynwyd a chyhoeddwyd cyngor gan y Gweinidog Addysg ym mis Gorffennaf 2011 ar strwythur y sector AU yn y dyfodol.</p> <p>Darparwyd cefnogaeth yn yr ymarfer ailddyrrannu niferoedd myfyrwyr er mwyn sicrhau na fyddai effaith andwyol ar ddatblygiadau uno yn neorllewin Cymru.</p>
Cael strategaethau rhanbarthol diwygiedig erbyn Hydref 2011.	<p>Cyflawnwyd.</p> <p>Canllaw pellach wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2011 a chyflwynwyd tair strategaeth ranbarthol wedi'u diwygio i CCAUC ym mis Hydref 2011.</p> <p>Strategaethau wedi'u dadansoddi a'u hystyried gan Bwyllgor Datblygu Strategol CCAUC ym mis Ionawr 2012.</p>

Llywodraethu

Sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd llywodraethu a chynaliadwyedd tymor hir y system addysg uwch.

Mae cyrff llywodraethu prifysgolion yn pennu eu cyfeiriad ac yn sicrhau bod timau gweithredol yn atebol am eu perfformiad.

Rydym yn annog cyrff llywodraethu i wella ansawdd llywodraethu'n barhaus, a chefnogi cynaliadwyedd hirdymor y system AU drwy sefydlu system addysg uwch wedi'i hailstrwythuro sy'n diwallu anghenion Cymru orau.

Ein nod yw:

- datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth ymhellach o fewn y sector addysg uwch.
- hybu rôl darparwyr addysg uwch fel 'dinasyddion corfforaethol'.

Rydym yn:

- ymgysylltu'n strategol â sefydliadau addysg uwch, sy'n cynnwys rhoi adborth ar gynlluniau strategol, monitro cynnydd, gweithio ar wella meysydd perfformiad penodol, a sicrhau bod ein Cyngor yn ymweld â phob sefydliad AU o leiaf unwaith bob tair blynedd.
- asesu adroddiadau sefydliadau AU ar gynnydd yn erbyn strategaethau a mentrau CCAUC.
- adolygu rhagolygon ariannol a datganiadau ariannol archwiledig pum mlynedd sefydliadau, er mwyn asesu eu cynaliadwyedd.
- helpu sefydliadau i lynu at ganllawiau a deddfwriaeth allanol mewn meysydd megis cydraddoldeb a chynaliadwyedd.
- monitro sefydliadau unigol a chynnydd a pherfformiad caffael y sector AU.
- parhau i gefnogi gwaith llywodraethu a rheolaeth y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch (LHFE) a Phwyllgor Cadeiryddion Prifysgol (CUC), ac eraill sy'n ymwneud â datblygu llywodraethu a rheolaeth.

Gweithgareddau yn 2011-12

- Gwnaeth ein Cyngor ymweld â Phrifysgol Glyndŵr, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru, Casnewydd fel rhan o'n rhaglen dreigl tair blynedd o ymweliadau sefydliadol.
- Yn ein hadolygiad risg sefydliadol, ni chafodd unrhyw sefydliad ei asesu'n 'risg uchel' yn gyffredinol, cafodd saith sefydliad eu hasesu fel risg 'cymedrol', sy'n esgor ar drafodaeth gyda CCAUC, a chafodd tri sefydliad eu hasesu fel risg 'isel' yn gyffredinol.

Cyflenwi tasgau allweddol yn 2011-12, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
<p>Gofyn i sefydliadau, yn eu rhagolygon ariannol, i egluro camau a gymerwyd a'r effaith ariannol mewn perthynas ag Adolygiad o Wasanaethau Rheng Flaen Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Cafwyd gwybodaeth yn y rhagolygon ariannol sy'n gysylltiedig â chamau a gynlluniwyd. Cofnodwyd y cynnydd wrth weithredu'r camau hyn a chyflawni'r arbedion effeithlonwydd yn y wybodaeth ariannol a gyflwynwyd i CCAUC erbyn 31 Gorffennaf 2012.</p>
<p>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisiâu sy'n deillio o Adolygiad Llywodraethu AU a phennu camau gweithredu i CCAUC er mwyn eu rhoi ar waith.</p>	<p>Cynnydd wedi'i alinio â chynlluniau ac amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgynghori ar argymhellion adroddiad yr adolygiad.</p>

CCAUC fel sefydliad

Ein nod yw darparu amgylchedd lle y gall ein staff gyrraedd eu potensial llawn fel y gall CCAUC, yn ei dro, gyflawni ei amcanion polisi a darparu gwasanaeth effeithiol.

Fel corff cyfryngol rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector addysg uwch, rydym yn gweithredu o fewn amgylchedd yr ydym yn dylanwadu arno yn hytrach na'i reoli.

Atebolrwydd CCAUC

Mae Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol yn diffinio'r berthynas rhwng CCAUC a Llywodraeth Cymru.

Mae'r prif weithredwr yn atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru am y defnydd a wneir o'r arian cyhoeddus a roir i CCAUC.

Mae Gweinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r cadeirydd a'r prif weithredwr, a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd adolygu perfformiad chwarterol gyda'r prif weithredwr a staff CCAUC.

Archwilir ein cofnodion a'r cyfrifon gan swyddfa annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru).

Cyngor ac adran weithredol CCAUC

Yn ystod 2011-12, roedd gan y Cyngor 12 aelod, gan gynnwys y Cadeirydd.

Yn ystod 2011-12, cyfarfu'r Cyngor saith gwaith. Mae aseswr o Lywodraeth Cymru yn mynd i'r cyfarfodydd. Mae gan brif weithredwyr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) a Chyngor Cyllido'r Alban, a llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru statws sylwedydd ar y Cyngor.

Nifer cyfartalog y swyddi cyfwerth ag amser-llawn yn CCAUC yn 2011-12 oedd 51. Roedd hyn yn cynnwys swyddi amser-llawn, swyddi rhan-amser, rhannu swyddi, neu benodiadau cyfnod penodol, staff ar secondiadau tymor byr a thymor hir, a myfyrwyr yn gweithio ar leoliadau.

Er mwyn cyflawni ein nod, rydym yn gobeithio:

- recriwtio a datblygu staff sy'n gweithio'n effeithiol ac sy'n amlygu gwerthoedd ac ymddygiad y sefydliad.
- bob amser asesu a nodi meysydd i'w gwella a chymryd y camau gweithredu gofynnol er mwyn bodloni heriau'r dyfodol.
- sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth effeithiol i'n rhanddeiliaid a'n partneriaid, a bod cyfathrebiadau clir ac ystyriol yn cefnogi ein gweithredoedd mewnol a'n perthnasoedd â'n partneriaid.
- gweithio'n effeithiol a bod yn gyflogwr model, a chadw'r safon Buddsoddwyr mewn Pobl.
- gweithio'n effeithlon a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys sicrhau caffael cynaliadwy.

Yr hyn a wnawn

- Cynhyrchwn strategaeth gorfforaethol tymor hwy a chynllun gweithredol mwy manwl sy'n para blwyddyn. Mae cynnydd yn erbyn y targedau yn y cynllun gweithredol yn cael ei adolygu bob chwarter gan ein Cyngor ni ac mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru.
- Mae ein cofrestr risg gorfforaethol a chofrestr risg twyll yn nodi risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni ein hamcanion corfforaethol a'r amgylchedd rydym yn gweithredu oddi mewn iddo, ac mae'n cynnwys mesurau ar gyfer rheoli'r risgiau hynny.
- Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn amlinellu ein hymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
- Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn nodi ein cyfrifoldebau tuag at unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig. Rydym yn cynnwys

ein staff a rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu ein Cynllun, sy'n cwmpasu CCAUC fel cyflogwr a pholisïau sy'n gysylltiedig â'r sector AU.

- Rydym yn casglu a dadansoddi gwybodaeth am staff ac ymgeiswyr swyddi sydd â nodweddion gwarchoddedig. Fel sefydliad bach, nid oeddem yn gallu cyhoeddi ein data ar gyfer 2011-12 heb i unigolion gael eu hadnabod.
- Mae gennym system rheoli amgylcheddol sy'n cael ei gwirio'n allanol, ac rydym yn gweithio gyda'n staff i weithredu gwelliannau o ran ein perfformiad amgylcheddol.
- Rydym yn caffael ein nwyddau a'n gwasanaethau ar y cyd lle bynnag y bo'n bosibl, gan ddefnyddio technoleg i gefnogi'r swyddogaeth gaffael. Rydym yn cyflawni targedau Llywodraeth Cymru ar gaffael cynaliadwy ac effeithlonrwydd ac yn adrodd ar y buddion a gronnwyd mewn perthynas â chaffael.
- Mae adolygiadau perfformiad a phrosesau monitro Llywodraeth Cymru, Buddsoddwyr mewn Pobl, arolygon rhanddeiliaid allanol ac arolygon staff mewnol i gyd yn asesu i ba raddau rydym yn cyflawni ein hamcanion.
- Rydym yn adolygu ein strwythur staffio a chymorth, a hefyd ein systemau ariannol ac eraill, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol i ddiogelu arian cyhoeddus a sicrhau gwerth am arian.

Mynediad i wybodaeth

Cynllun Cyhoeddi

Mae Cynllun Cyhoeddi CCAUC, a luniwyd o dan Adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ar gael yn www.hefcw.ac.uk, neu ar gopi caled ar gais, yn nodi: y wybodaeth yr ydym ni'n ei chyhoeddi, neu'n bwriadu ei chyhoeddi; sut y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi; ac a yw'r wybodaeth ar gael am ddim ai peidio.

Cod Ymarfer a chofrestr o fuddiannau

Mae gofyn i bob aelod o'r Cyngor a'r staff gydymffurfio â Chod Ymarfer a chofrestru buddiannau ariannol, gwleidyddol a buddiannau eraill sy'n berthnasol i fusnes CCAUC. Mae'r gofrestr o fuddiannau'r Cyngor a buddiannau aelodau'r pwyllgor ar gael ar gais gan Ysgrifennydd y Cyngor ac ar ein gwefan, www.hefcw.ac.uk.

Cwynion

Rydym yn gweithredu Gweithdrefn Gwyno yn Erbyn CCAUC a gall Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ymchwilio i CCAUC. Cawsom un cais i ystyried cwyn o dan y Weithdrefn Gwyno yn ystod y flwyddyn.

Yn 2011-12:

- Cefnogodd Cabinet Llywodraeth Cymru yr argymhellion a nodwyd gan y Gweinidog dros Addysg yn dilyn adolygiad McCormick o lywodraethu AU yng Nghymru sef y dylid sefydlu **corff hyd braich newydd** sydd â mwy o bwerau cynllunio a rheoleiddio i olynu CCAUC.
- Gwnaethom gynnal ein hail arolwg o **rhanddeiliaid a phartneriaid**. Roedd gan 74% o'r ymatebwyr argraff gyffredinol ffafriol o CCAUC.
- Llofnododd CCAUC Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Comisiwn Elusennau i wella cyswllt a gweithio'n fwy effeithiol wrth ddatblygu arweiniad i'r sector AU.
- Gwnaethom gynnal ein safon Buddsoddwyr mewn Pobl am dair blynedd arall yn dilyn adolygiad.
- Gwnaethom ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.
- Gwnaeth CCAUC gadw ei achrediad yn erbyn y **Safon System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ISO 27001** ar ôl cael yr ardystiad ym mis Medi 2007.

Cyflenwi tasgau allweddol yn 2011-12, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru

Tasg	Canlyniad
<p>I:</p> <ul style="list-style-type: none"> paratoi cynllun gweithredol ym mis Ebrill 2011 yn seiliedig ar Strategaeth a llythyr cylch gwaith CCAUC. cyflwyno cynllunio gweithredol i'r Gweinidog Addysg erbyn diwedd mis Mai 2011. adrodd yn ôl yn rheolaidd ar y cynllun gweithredol i Lywodraeth Cymru. 	<p>Cyflawnwyd.</p> <p>Cyflwynwyd y cynllun gweithredol drafft erbyn y dyddiad cau, sef 31 Mai, ac fe'i cymeradwywyd wedi hynny.</p>
<p>Gweithio gyda'r sector AU i sicrhau bod trefniadau monitro ac adrodd cadarn ar waith ar gyfer cynlluniau ffioedd, gan adeiladu ar waith cyfredol i ehangu mynediad.</p> <p>Cyflwyno adroddiad am gynlluniau ffioedd i'r Gweinidog Addysg.</p>	<p>Cyflawnwyd.</p> <p>Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Gweinidog Addysg ym mis Mawrth 2012 ar ymarfer 2011, a chyhoeddwyd cylchlythyr i wneud cais am gynlluniau ffioedd 2013/14.</p>
<p>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr i gytuno ar drefniadau cost effeithiol ac amserol ar gyfer talu grant cymorth ffioedd i'r sefydliadau AU yng Nghymru ac yng ngweddill y DU.</p>	<p>Cytunwyd ar Gytundeb Gwasanaeth gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr.</p> <p>Rhannwyd rhagolygon ariannol a niferoedd myfyrrwyr a chytunwyd ar ddyddiadau talu.</p>
<p>Cadw'r dulliau a sefydlwyd i sicrhau na fydd gormod o fyfyrwyr yn cael eu recriwtio.</p> <p>Cyflwyno adroddiad i'r Gweinidog Addysg erbyn mis Chwefror 2012.</p>	<p>Cyflawnwyd.</p> <p>Cyflwynwyd adroddiad i'r Gweinidog, Chwefror 2012.</p>
<p>Sefydlu Cronfa Fuddsoddi Gyhoeddus o 2012/13, gyda chynigion cychwynnol i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2011, cyn ymgynghori fel y bo'n briodol.</p>	<p>Cyflawnwyd.</p> <p>Yn dilyn ymgynghoriad, cytunodd y Cyngor ar y cynigion ym mis Hydref 2011.</p> <p>Ystyriwyd y canlyniadau terfynol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth 2011.</p>
<p>Cynnal adolygiad sefydliadol yng ngoleuni gostyngiadau yn y costau rhedeg.</p>	<p>Cynhaliwyd adolygiad.</p> <p>Gweithredwyd a chwblhawyd cynllun ymadael gwirfoddol. Gostyngiadau mewn costau yn mynd rhagddynt yn unol â'r gyllideb ar gyfer costau rhedeg.</p> <p>Ymgysylltu pellach mewn perthynas â'r gwaith manwl i gwblhau'r dyluniad sefydliadol newydd.</p>

Pwyllgorau a gweithgorau'r Cyngor yn 2011

Bob blwyddyn, rydym yn gofyn i brifysgolion a phartneriaid eraill i enwebu aelodau ar gyfer ein Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd, a'n Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu, sy'n cynghori ein Cyngor ar bolisiâu yn y meysydd hyn.

Cadeirydd y Pwyllgor Penodi: **Roger Thomas**

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg: **David Allen; David Mason** o fis Rhagfyr 2011

Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol: **Nina Park**

Cadeirydd y Pwyllgor Tâl: **Roger Thomas**

Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu: **Yr Athro Robin Williams**

Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Strategol: **Y Fonesig Sandra Burslem**

Cadeirydd y Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd: **Yr Athro Leni Oglesby**

Aelodau'r Cyngor yn ystod 2011-12

Cadeirydd

Roger Thomas

– 5 Mai 2008 hyd 4 Mai 2011;

ailbenodwyd 5 Mai 2011 hyd 4 Mai 2014

Bu Roger Thomas OBE, CCMI, FRSA, OStJ yn gadeirydd llywodraethwyr a dirprwy ganghellor Prifysgol Morgannwg, ac yn gadeirydd Cadeiryddion Addysg Uwch Cymru. Yn rhinwedd y swydd ddiwethaf roedd yn aelod o Grŵp Cadeiryddion Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol (CUC) ac yn aelod o fwrdd Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau; a Chydbwyllgor Negodi ar gyfer Staff Addysg Uwch. Y tu allan i addysg uwch, mae Roger yn gyfarwyddwr ac yn ddirprwy gadeirydd Business in Focus Ltd (asiantaeth fenter), mae'n gyfarwyddwr ar Cardiff and Vale Enterprise International Ltd ac yn farnwr gyda Llys Taleithiol yr Eglwys yng Nghymru. Bu gynt yn uwch bartner gyda chyfreithwyr Eversheds yng Nghaerdydd, yn is-lywydd Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, yn gyfarwyddwr gydag Opera Cenedlaethol Cymru, yn aelod ac yn is-gadeirydd o Gyngor Techniquet, Ymgynghorydd Partneriaeth Fusnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn aelod o Gyngor Prifysgol Caerdydd ac Uchel Siryf De Morgannwg 2011-12.

Aelodau eraill

Yr Athro Philip Gummett

– 0 fis Mai 2004

Philip Gummett oedd prif weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) tan fis Hydref 2012. Ymunodd â CCAUC o Brifysgol Manceinion lle'r oedd yn ddirprwy is-ganghellor, yn gyn-bennaeth yr Adran Llywodraeth, ac yn Athro Llywodraeth a Pholisi Technoleg. Roedd yn un o sefydlwyr ac yn gyfarwyddwr anweithredol PREST (Ymchwil Polisi mewn Peirianeg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg) ym Manceinion – un o'r canolfannau ymchwil polisi gwyddoniaeth mwyaf blaenllaw yn y byd – ac mae ef hefyd yn gyn-aelod ac yn gadeirydd Bwrdd yr Arholwyr, Bwrdd Hyfforddiant y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Mae'n gydymaith y Sefydliad Rheolwyr Siartredig.

David Allen

- 1 Rhagfyr 2008 i 30 Tachwedd 2011; ailbenodwyd 1 Rhagfyr 2011 i 30 Tachwedd 2014

Bu David Allen OBE yn gofrestrydd ac ysgrifennydd Prifysgol Caerwysg ers 2003 ac yn ddirprwy brif weithredwr ers 2009. Tan 2010, roedd David yn gwasanaethu ar Fwrdd y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch ac yn gadeirydd ei Bwyllgor Archwilio. Roedd yn aelod o Bwyllgor Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Rheolaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr a dyfarnwyd OBE iddo am ei wasanaethau i addysg uwch yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd yn 2012.

James Bennett

- Penodwyd 1 Ebrill 2010; cyfnod o absenoldeb o fis Mai 2010; daeth ei aelodaeth i ben 5 Ebrill 2011

Penodwyd James (Jim) Bennett yn aelod newydd o Gyngor CCAUC o 1 Ebrill 2010 ond dechreuodd gyfnod o absenoldeb ym mis Mai 2010 ar ôl cael ei benodi'n brifathro dros dro ar gyfer Coleg Gwent. Cymerodd Jim absenoldeb di-dâl o'r Cyngor tan fis Mai 2011 pan ymddiswyddodd yn dilyn cadarnhad o'i benodiad fel prifathro a phrif weithredwr Coleg Gwent.

Y Fonesig Sandra Burslem

- 1 Rhagfyr 2008 i 30 Tachwedd 2011; ailbenodwyd 1 Rhagfyr 2011 hyd 30 Tachwedd 2014

Bu'r Fonesig Sandra yn is-ganghellor Prifysgol Fetropolitan Manceinion rhwng 1997-2005. Mae hi bellach wedi cael ei phenodi'n gomisiynydd gwasanaeth sifil. Ymhlith ei phenodiadau fel aelod bwrdd, mae'n is-gadeirydd Cyngor OFQUAL, ac mae'n gadeirydd llywodraethwyr ysgol yn Ysgol Gerdd Chetham's. Dyfarnwyd OBE iddi am ei gwasanaeth i addysg uwch ym 1992, a daeth yn Fonesig Gomander yr Ymerodraeth Brydeinig yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd yn 2004. Roedd yn Uchel Siryf Fanceinion Fwyaf yn 2006-07.

Bethan Guilfoyle

- 1 Ebrill 2010 hyd 31 Mawrth 2013

Rhwng 1996 a 2011, roedd Bethan Guilfoyle yn bennaeth yn Ysgol Gyfun Treorci, sef ysgol o 1,560 o fyfyrwyr, gan gynnwys 325 o fyfyrwyr chweched dosbarth.

Mae hi'n aelod o Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar gyfer Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ac mae'n gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant. Roedd yn un o lywodraethwyr Prifysgol Morgannwg tan 2010. Yn 2010 dyfarnwyd CBE iddi am ei gwasanaethau i addysg. Yn 2011 cafodd ei phenodi'n Gomisiynydd Addysg ar gyfer Blaenau Gwent.

Yr Athro Mari Lloyd-Williams

- 1 Ionawr 2007 hyd 31 Rhagfyr 2009; ailbenodwyd 1 Ionawr 2010 hyd 31 Rhagfyr 2012

Ers 2003 mae'r Athro Lloyd-Williams wedi dal cadair bersonol yng Nghyfadrann Meddygaeth Prifysgol Lerpwl, lle y mae hefyd yn ymgynghorydd mewn meddygaeth liniarol ac yn gyfarwyddwr un o gymunedau addysg feddygol fwyaf y DU. Yn ddiweddar roedd yn Uwch Ddarlithydd Anrhydeddus ac yn Arweinydd Meddygol Hosbis LOROS, Caerlŷr. Mae ganddi brofiad eang o gadeirio ac eistedd ar bwyllgorau rhanbarthol a chenedlaethol gan gynnwys, ar hyn o bryd, pwyllgor ymddygiad proffesiynol y Cyngor Meddygol Cyffredinol a phwyllgor yr Adran Iechyd ar ofal seicogymdeithasol.

David Mason

- 1 Ebrill 2010 hyd 31 Mawrth 2013

Ymdeolodd David Mason ym mis Chwefror 2004 ar ôl bod yn brifathro/prif Weithredwr Coleg Gwent am chwe blynedd. Cyn hynny bu'n Bennaeth dau goleg yn Lloegr, ac mae wedi dal uwch swyddi gyda'r Awdurdod Hedfan Sifil. Ers ymdeol, mae David wedi ymgymryd â nifer o brosiectau ymgynghori ym maes AB, yn cynnwys dwy swydd fel prifathro dros dro, y naill yn rheoli cau coleg a'r llall yn rheoli cyfuno colegau. Mae David yn Aelod o Fwrdd Colegau Cymru, ac yn gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Coleg Merthyr Tudful. Bu hefyd yn gweithio i Sefydliad y Cyfarwyddwyr fel swyddog cyswllt addysg dros Gymru ac mae'n Gymrawd Anrhydeddus ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd.

Yr Athro Katherine Leni Oglesby

– 1 Rhagfyr 2008 hyd 30 Tachwedd 2011;
ailbenodwyd 1 Rhagfyr 2011 hyd 30 Tachwedd
2014

Mae'r Athro Oglesby wedi dal swyddi academiaidd ac uwch reolwr ym Mhrifysgolion Caerlŷr, Sheffield, Caerhirfryn, Surrey a Phrifysgol Fetropolitan Manceinion, a bu ar secondiad i Adran Polisi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr. Mae ganddi brofiad helaeth o asiantaethau rhyngwladol, Ewropeaidd, cenedlaethol a rhanbarthol, a bu'n aelod o baneli CCAULI (HEFCE) a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Graddiodd ym Mhrifysgol Caerdydd, ac ymgwymerodd ag astudiaethau ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerlŷr. Mae hi hefyd yn gymrawd yng Nghymdeithas Frenhinol y Celfyddydau.

Nina Park

– 1 Ebrill 2010 hyd 31 Mawrth 2013

Bu Nina Park yn is-lywydd Control Techniques ers 2007 ac mae ganddi gyfrifoldeb byd-eang dros adnoddau dynol. Mae pencadlys Control Techniques, sy'n gweithgynhyrchu technolegau rheoli moduron a thrawsnewid pŵer ar gyfer cymwysadau masnachol a diwydiannol, yn y Drenewydd, Powys, ac mae'n rhan o Emerson, cwmni amlwladol gwerth \$25 biliwn sy'n cyflogi 134,000 o weithwyr. Graddiodd Nina o Brifysgol Oxford Brookes gyda BA (Anrh) yn Saesneg, y Gyfraith, Gwleidyddiaeth a Hanes a dechreuodd ei gyrfa mewn recriwtio cyn symud i adnoddau dynol, a bu'n dal nifer o swyddi uwch cyn ymuno ag Emerson yn 2005. Mae ganddi radd Meistr mewn Rheoli Adnoddau Dynol ac mae'n aelod o'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Datblygu a Phersonél.

Yr Athro Syr Brian Smith

– 1 Rhagfyr 2002 hyd 30 Tachwedd 2005;
ailbenodwyd 1 Rhagfyr 2005 hyd 30 Tachwedd
2008; ailbenodwyd 1 Rhagfyr 2008 hyd 30
Tachwedd 2011

Penodwyd Syr Brian yn Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd ym 1993, ac ymddeolodd yn 2001. Cyn hynny bu'n feistr Coleg y Santes Catherine ym Mhrifysgol Rhydychen. Urddwyd ef yn farchog ym 1999, mewn cydnabyddiaeth o'i lwyddiant i adeiladu cysylltiadau o fudd i'r naill ochr a'r llall rhwng y Brifysgol a diwydiant a masnach. Hefyd bu Syr Brian yn gwasanaethu gydag Awdurdod Datblygu Cymru o fis Hydref 1998, gan helpu i agor marchnadoedd i Gymru yn India a Tsieina. Mae Syr Brian yn llysgennad rhyngwladol dros Brifysgol Caerdydd.

Yr Athro Robin Williams

– 1 Awst 2009 hyd 31 Gorffennaf 2012

Yr Athro Robin Williams oedd Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe o 1994 hyd 2003. Cyn hynny roedd yn Bennaeth Ffiseg a Seryddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd lle yr oedd yn is-brifathro hefyd. Roedd llawer o'i ymchwil yn cynnwys cydweithio â diwydiant ar hyd a lled y byd ac mae ef wedi cadeirio amrywiaeth eang o bwllgorau cenedlaethol a rhyngwladol ym meysydd ffiseg a pheirianeg. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol a rhoddwyd CBE iddo am ei gyfraniad at ymchwil ac addysg uwch. Roedd yn aelod o'r Grwpiau Cyngori Gweinidogion ar gyfer datblygu economaidd ac ar gyfer addysg yng Nghymru ac roedd yn aelod o'r grŵp a sefydlwyd i adolygu addysg uwch. Bu'n cadeirio'r Bwrdd Cynllunio a luniodd adroddiad annibynnol ar fodel ar gyfer y Coleg Ffederal a sefydlwyd bellach fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganiad cryno o gyfrifon

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

Datganiad cryno o gyfrifon

Mae'r datganiad ariannol canlynol yn grynodeb o gyfrifon Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012. Mae'r datganiadau yn drosolwg ac nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i gynnig dealltwriaeth lawn o ganlyniadau a sefyllfa CCAUC. Am ragor o wybodaeth, dylid cyfeirio at y cyfrifon blynyddol llawn ac adroddiad yr archwilydd ar y cyfrifon hynny. Mae copi o'r cyfrifon archwiliedig, sy'n cynnwys y wybodaeth fanwl sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac yn unol â chanllawiau arfer gorau, ar gael am ddim, drwy gysylltu ag Ysgrifennydd y Cyngor, CCAUC, Cwrt Linden, y Berllan, Clos Ilex, Llanisien, Caerdydd CF14 5DZ.

Cefndir statudol

Sefydlwyd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ar 7 Mai 1999, sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a daeth yn gyfrifol am y rhan fwyaf o swyddogaethau'r Swyddfa Gymreig o 1 Gorffennaf 1999, a arweiniodd at greu CCAUC fel corff a noddir gan yr hen Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998. O ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, daeth CCAUC yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad ac ar ôl ethol llywodraeth newydd ym mis Mai 2011, daeth yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae CCAUC yn gyfrifol am weinyddu'r cronfeydd a roddir ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac eraill, i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch Cymru, ac i ddarparu cyrsiau addysg uwch rhagnodedig a ddarperir yn sefydliadau addysg bellach Cymru, a pherfformiad swyddogaethau ategol sy'n ofynnol gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae ein cyfrifoldebau am hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cael eu cwmpasu o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 a Deddf Addysg 2005.

Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn

Y costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn oedd £386.7 miliwn (costau gweithredu net 2010-11 oedd £455.6 miliwn). Cronfa gyffredinol gronnu ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth 2012 ar ôl credydu cyllid cymorth grant o £389.1 miliwn, oedd £8.0 miliwn (31 Mawrth 2011 – £5.5 miliwn).

Aelodau'r Cyngor

Bu'r aelodau canlynol yn gwasanaethu ar y Cyngor yn ystod y flwyddyn adrodd:

Cadeirydd

- **Mr Roger Thomas OBE**
(ailbenodwyd 5 Mai 2011)
Cyn Gadeirydd y Llywodraethwyr a Dirprwy Ganghellor Prifysgol Morgannwg

Aelodau

- **Yr Athro Philip Gummatt**
Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- **Mr David Allen OBE**
(ailbenodwyd 1 Rhagfyr 2011)
Cofrestrydd a Dirprwy Brif Weithredwr Prifysgol Caerwysg
- **Y Fonesig Alexandra Burslem**
(ailbenodwyd 1 Rhagfyr 2011)
Cyn Is-Ganghellor Prifysgol Fetropolitan Manceinion
- **Yr Athro Mari Lloyd-Williams**
(ailbenodwyd 1 Ionawr 2010)
Uwch Academydd Clinigol, Prifysgol Lerpwl
- **Yr Athro Katherine Oglesby**
(ailbenodwyd 1 Rhagfyr 2011)
Cyn Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Teeside
- **Yr Athro Syr Brian Smith**
(daeth ei dymor yn y swydd i ben 30 Tachwedd 2011)
Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

- **Yr Athro Robin Williams CBE**
(penodwyd 1 Awst 2009)
Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe
 - **Mr James Bennett**
(penodwyd 1 Ebrill 2010, ymddiswyddodd 5 Ebrill 2011)
Cyn Brifathro Coleg De Tyneside
 - **Mrs Bethan Guilfoyle CBE**
(penodwyd 1 Ebrill 2010)
Cyn Bennaeth Ysgol Gyfun Treorci
- **Mr David Mason**
(penodwyd 1 Ebrill 2010)
Cyn Brifathro/Prif Weithredwr Coleg Gwent
 - **Ms Nina Park**
(penodwyd 1 Ebrill 2010)
Is-Lywydd, Adnoddau Dynol ar gyfer Control Techniques

Bu'r aelodau canlynol yn gwasanaethu ar bwyllgorau a phaneli CCAUC yn ystod y flwyddyn:

Pwyllgorau	Aelodau
Profiad myfyrwyr, addysgu ac ansawdd	Yr Athro Katherine Oglesby (<i>Cadeirydd</i>), Mrs Bethan Guilfoyle, Mr David Mason, yr Athro Mari Lloyd-Williams (<i>hyd fis Gorffennaf 2011</i>)
Ymchwil, arloesi ac ymgysylltu	Yr Athro Robin Williams (<i>Cadeirydd</i>), yr Athro Syr Brian Smith (<i>hyd at 30 Tachwedd 2011</i>), Ms Nina Park, un swydd
Archwilio a risg	Mr David Mason (<i>Cadeirydd o 1 Rhagfyr 2011</i>), Mr David Allen (<i>Cadeirydd hyd at 30 Tachwedd 2011</i>)
Datblygiad strategol (Ailgyflunio a chydweithio gynt)	Y Fonesig Alexandra Burslem (<i>Cadeirydd</i>), Mr David Mason, yr Athro Syr Brian Smith (<i>hyd at 30 Tachwedd 2011</i>), yr Athro Robin Williams, yr Athro Philip Gummett, un swydd
Adnoddau dynol	Ms Nina Park (<i>Cadeirydd</i>), y Fonesig Alexandra Burslem
Tâl	Mr Roger Thomas (<i>Cadeirydd</i>), y Fonesig Alexandra Burslem, Ms Nina Park
Penodiadau	Mr Roger Thomas (<i>Cadeirydd</i>), Mr David Allen (<i>hyd at 30 Tachwedd 2011</i>), Mr David Mason (<i>o 1 Rhagfyr 2011</i>), y Fonesig Alexandra Burslem, yr Athro Katherine Oglesby, yr Athro Robin Williams, Ms Nina Park, yr Athro Philip Gummett

Archwilwyr

Roedd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon blynyddol llawn CCAUC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 yn bendant.

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Datganiadau Ariannol Cryno

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno a gynhwysir yn natganiadau ariannol statudol Adroddiad Blynyddol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a nodwyd ar dudalennau 42 i 45.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw adrodd fy marn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno â'r datganiadau ariannol statudol a'r adroddiad cydnabyddiaeth. Darllenais hefyd y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw ddatganiadau anghywir neu anghysondebau materol o fewn y datganiadau ariannol cryno.

Sail barn

Cynhaliad fy ngwaith yn unol â Bwletin 2008/3 'Datganiad yr archwilydd ar y datganiadau ariannol cryno' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Archwilio Arferion at ddefnydd y Deyrnas Unedig.

Barn

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol statudol ac adroddiad ar gydnabyddiaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 yr wyf yn cyhoeddi barn bendant ar ei chyfer.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
23 Gorffennaf 2012

Datganiad cryno o'r gwariant net cynhwysfawr*am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012*

	2012		2011	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant				
<i>Cyllido addysg uwch:</i>				
Gwariant rheolaidd	379,855		431,595	
Gwariant cyfalaf	-		17,223	
Dibenion eraill	21,819		28,204	
	<u>401,674</u>		<u>477,022</u>	
<i>Gwariant y Cyngor:</i>				
Costau staff	2,728		2,243	
Dibrisiant	58		76	
Amorteiddiad	-		-	
Colled ar waredu asedau sefydlog	-		2	
Gwariant arall	607		593	
	<u>3,393</u>		<u>2,914</u>	
Cyfanswm y gwariant		(405,067)		(479,936)
Incwm				
Incwm o weithgareddau		<u>18,406</u>		<u>24,299</u>
Costau gweithredu net		(386,661)		(455,637)
Llog a dderbyniwyd		3		4
Dyraniadau		(2)		(4)
Costau gweithredu net ar ôl trosglwyddo'r llog i ecwiti'r trethdalwyr		<u>(386,660)</u>		<u>(455,637)</u>

Datganiad cryno o'r sefyllfa ariannol

ar 31 Mawrth 2012

	Ar 31 Mawrth 2012	Ar 31 Mawrth 2011
	£'000	£'000
<i>Asedau nad ydynt yn gyfredol</i>		
Eiddo, offer a chyfarpar	135	184
Asedau anniriaethol	-	-
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol	135	184
<i>Asedau cyfredol</i>		
Masnach a derbyniadwyon eraill	1,477	804
Arian a chyfwerth ag arian	7,550	5,515
Cyfanswm yr asedau cyfredol	9,027	6,319
Cyfanswm yr asedau	9,162	6,503
<i>Rhwymedigaethau cyfredol</i>		
Masnach a thaladwyon eraill	(1,106)	(927)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau o fewn blwyddyn	(1)	(7)
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net	8,055	5,569
<i>Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol</i>		
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ôl blwyddyn	(19)	(22)
Asedau llai'r rhwymedigaethau	8,036	5,547
<i>Ecwiti'r trethdalwyr</i>		
Cronfa wrth gefn gyffredinol	8,036	5,547
	8,036	5,547

Datganiad cryno o lif arian*am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012*

	2012	2011
	£'000	£'000
All-lif arian net o weithgareddau gweithredol	(387,106)	(455,618)
All-lif arian net o enillion ar fuddsoddiadau a benthyciadau ariannol	1	-
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi	(9)	(96)
Llif arian parod o weithgareddau ariannu	389,149	456,869
Cynnydd net mewn arian parod	2,035	1,155

Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr*am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012*

Cronfa wrth gefn gyffredinol

	£'000
Balans ar 1 Ebrill 2011	5,547
<i>Newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn 2011-12</i>	
Costau gweithredu net	(386,660)
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2011-12	(386,660)
Cyllid gan Lywodraeth Cymru	389,149
Balans ar 31 Mawrth 2012	8,036

Nodiadau

1. Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol cryno wedi cael eu paratoi o dan gonfensiwn cost hanesyddol, gan gyfeirio at Ddeddf Cwmnïau 1985, gan roi sylw dyledus i Reoliadau Cwmnïau (Datganiad Ariannol Cryno) 1995 (SI 1995/2092) cyn belled ag y bo'n berthnasol, Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2011-12 ac maent yn cydymffurfio â chyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chydysyniad y Trysorlys, wrth arfer ei bwerau a nodwyd ym mharagraff 16(2), atodlen 1 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.



Yr Athro Philip Gummert
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
20 Gorffennaf 2012